**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 14 Mawrth 2018**

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes (PH) | Cadeirydd |
| Ifan Lloyd (IL) | |
| David Davies (DD) | |
| Moss Jones (MJ) | |
| Abi Reader (AR) | |
| Paula Boyden (PB) | |
| Joanne Price (JP) | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Emma Biggs (EB) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| Tom Henderson (Rhan o'r Cyfarfod) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| Candice Boyes (CB) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| Nikki Fitzgerald (NF) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |

| | |
|---|---|
| PC David Allen | Heddlu Gogledd Cymru, Tîm Troseddau Gwledig |
| Rob Taylor | Heddlu Gogledd Cymru, Tîm Troseddau Gwledig |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Paul Critchley (PC) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |

**<u>Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso</u>**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Grŵp.

2. Diolchodd i bawb am fod yn bresennol, a chroesawodd Emma Biggs sydd wedi ymuno â Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn ddiweddar, a hynny ar secondiad o APHA er mwyn ymgymryd â swydd Brexit sy'n cael ei ariannu.

**<u>Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod ar 22 Tachwedd</u>**

3. Aeth y Cadeirydd drwy'r cofnodion terfynol, a chafodd y camau gweithredu wedi'u diweddaru o'r cyfarfod diwethaf eu hanfon at aelodau'r Grŵp drwy e-bost fel rhan o bapurau'r cyfarfod hwn.

4. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Y diweddaraf gan y Cadeirydd**

5. Gofynnodd y Cadeirydd i DD roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp, am fod angen i DD adael y cyfarfod yn gynnar.

6. Nododd DD ei fod wedi mynd i gyfarfod diwethaf y Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg. Tynnwyd sylw at faterion amrywiol, gan gynnwys clefyd Johne. Gwnaethant drafod y ffordd yr hoffent i gynhyrchwyr gyhoeddi datganiadau sy'n nodi sut maent yn bwriadu mynd i'r afael â hyn. Nododd DD fod nifer y bobl sy'n yfed llaeth yn lleihau, ac roedd yn teimlo y gellid priodoli hyn yn rhannol i bryderon y cyhoedd ynghylch goblygiadau clefyd Johne. Gofynnodd DD hefyd a oedd unrhyw syniadau o ran sut y gallai'r Grŵp Fframwaith gefnogi hyn.

7. Nododd DD fod cyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg yn cynnwys llawer o gynrychiolwyr o'r diwydiant, ond nid y rhai sy'n gwneud y gwaith hwn ar lawr gwlad. Hefyd, dim ond Cymru a Lloegr sy'n cael eu cynrychioli, a dylai'r cyfarfodydd gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig eraill.

8. Yn dilyn cyfarfod Cronfa Datblygu Ewrop, mynegodd DD rywfaint o bryder ynghylch arian y Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol. Mae trafodaeth yn mynd rhagddi ynghylch y ffaith y bydd Cymru bellach yn cael ei rhannu rhwng pobl a busnes yn hytrach na rhwng cydgyfeirio a chystadleurwydd fel o'r blaen. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn teimlo y bydd yn gallu clustnodi cyfran o'r arian i ffermwyr.

9. Atgoffodd DD y Grŵp fod gan Ysgrifennydd y Cabinet bortffolio eang, felly mae angen parhau i sicrhau nad yw'n colli golwg ar faterion o fewn y diwydiant ffermio.

10. Yn ôl DD, mae gennym wersi i'w dysgu gan yr Alban o ran deddfu o blaid dileu BVD a'r hyn y mae angen ei wneud o ran gwartheg sydd wedi'u heintio'n barhaus. Roedd IL yn ymwybodol bod y rhaglen BVD yng Nghymru eisoes wedi cyrraedd 3,100 o ffermydd a bod tua 27% o'r rhai a brofwyd wedi cael o leiaf un canlyniad cadarnhaol fel rhan o'r broses sgrinio. Yn gyffredinol, mae ymgysylltiad â'r rhaglen hon yn dda iawn yng Nghymru hefyd.

11. Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch profion BVD, gan nodi ei fod wedi siarad â ffermwyr na chawsant gynnig prawf BVD ar yr un pryd â'u prawf TB.

12. Roedd MJ yn teimlo, wrth fwrw ymlaen â Brexit, fod Defra yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol yn hytrach nag iechyd anifeiliaid. Nid oes digon o weithredu mewn perthynas â'r pwnc hwn. Dywedodd JP fod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd y dylai pawb fod yn ymwybodol ohono a chyfrannu ato os oes angen.

13. Dywedodd CG fod angen i'r Grŵp fod yn ymwybodol o unrhyw ymgyngoriadau sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru. Mae angen i'r Grŵp godi unrhyw faterion a bod yn rhan o'r ymgyngoriadau hynny er mwyn cael unrhyw effaith wrth wneud newidiadau.

14. Dywedodd CG fod Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi nodi swyddi ychwanegol a fydd yn cefnogi gwaith Brexit, a bod EB wedi cael ei phenodi hefyd i arwain y gwaith hwn. Cynhelir trafodaethau mewnol hefyd ar y cymorth cyfreithiol ychwanegol sydd ei angen arnom er mwyn sicrhau bod gennym safbwyntiau cryf yng Nghymru ar ein gofynion ar gyfer Brexit.

**Y diweddaraf gan y Cadeirydd**

15. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am y cyfarfod a gafodd gydag Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Ionawr. Roedd y cyfarfod yn un cadarnhaol. Aeth y Cadeirydd i Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr lle rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet araith, ond roedd yn siomedig nad oedd sôn am les anifeiliaid.

16. Roedd y Cadeirydd yn bresennol yn y digwyddiad bord gron yn Llandudno yn ddiweddar. Soniodd am y drafodaeth a gafwyd ynghylch cronfa bontio gwerth £50m a fydd ar gael.

17. Mae'r Cadeirydd yn siomedig bod y broses o gynllunio iechyd anifeiliaid yn cael ei hystyried hefyd gan Fwrdd Hybu Cig Cymru. Hoffai ddeall rôl y Bwrdd yn well a sicrhau na chaiff gwaith ei ddyblygu.

**Cam gweithredu 1>** Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi adborth i dîm y prosiect ynghylch problemau nad yw ffermwyr yn cael prawf BVD ar yr un pryd â'u prawf TB o hyd

**Cam gweithredu 2>** EB a PC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am waith Brexit yn ystod cyfarfod nesaf y Grŵp Fframwaith

**Cam gweithredu 3>** Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd Kathryn Smith i gyfarfod nesaf y Grŵp Fframwaith er mwyn iddi egluro rôl Bwrdd Hybu Cig Cymru yn y broses o gynllunio iechyd anifeiliaid a'r ffordd y gellid dod â'r ddau grŵp ynghyd

**<u>Eitem 4 ar yr Agenda: Difa Lloi o Wartheg Godro</u>**

18. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i AR, a wnaeth gais i gynnwys yr eitem ar yr agenda.

19. Mae AR yn ymwybodol bod lloi gwryw yn dal i gael eu saethu yng Nghymru. Mae'n debyg mai'r rheswm dros hyn yw'r costau a'r cyfyngiadau ar yr anifail o ran pryd y gallwch ei symud. Fodd bynnag, mae AR yn teimlo bod marchnad ar gyfer yr anifeiliaid hyn. Atgoffodd y Grŵp o'r cynllun a gynhaliwyd gan y CFfI ac a gafodd ei sefydlu er mwyn helpu ffermwyr ifanc, ond nid oedd y cynllun mor llwyddiannus ag y byddai pobl wedi gobeithio, oherwydd cost effeithiolrwydd ac ymwybyddiaeth ffermwyr o bosibl.

20. Dywedodd JP ei bod wedi cymryd rhan mewn gwaith yn ddiweddar i gynnal arddangosiadau i ffermwyr ac atebion gwahanol gan ddibynnu ar y fferm/ffermwyr.

21. Soniodd TH am y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â symud lloi, sef bod angen iddynt fod yn 10 diwrnod oed o leiaf (neu'n 14 diwrnod oed os bydd y daith yn para mwy nag wyth awr) a chael eu hystyried yn addas i'w symud. Cwestiynodd TH ai mater lles oedd hwn, neu fater mwy ariannol.

22. Yn ôl MJ, oherwydd barn y cyhoedd, byddai angen i ni gadw llygad ar y sefyllfa hon gan y gallai waethygu.

23. Dywedodd DD y gallai'r ffordd y caiff lloi eu trin cyn eu difa a phryd y cânt eu symud effeithio ar eu lles (h.y. diffyg llaeth tor wrth symud lloi yn rhy gynnar). Gofynnodd IL a oedd hyn yn arfer cyffredin. Yn ddiweddar, mae IL wedi cysylltu â Chymdeithas Milfeddygon Prydain a Chymdeithas Milfeddygon Gwartheg Prydain i drafod y mater hwn, ac nid oeddent yn ymwybodol bod hyn yn digwydd i raddau sy'n peri pryder. Yn ddiweddar, mae Ffederasiwn Milfeddygon Ewrop wedi cyhoeddi papur safbwynt ar wartheg gwryw sydd dros ben.

24. Nododd AR ei bod yn credu bod marchnad ar gyfer lloi nad oes eu heisiau (p'un a ydynt yn lloi godro/eidion neu'n lloi godro/eidion croesfrid), a soniodd am gynlluniau blaenorol a oedd yn dosbarthu'r rhain. Roedd yn teimlo y dylem ystyried opsiynau eraill yn hytrach na difa ar ffermydd os bydd problem yn codi.

25. Dywedodd JP ei bod yn bosibl bod data ar gael eisoes, ond heb wybod maint y broblem, byddai'n anodd chwilio am gyfleoedd i'w datrys.

**Cam gweithredu 4>** Yr Ysgrifenyddiaeth i wneud ymholiadau er mwyn trefnu ymarfer bwrdd gwaith cyflym a fydd yn ystyried a oes problem yng Nghymru ac a oes atebion posibl

**<u>Eitem 5 ar yr Agenda: Cynllunio Iechyd Anifeiliaid</u>**

26. Soniodd MJ am yr adroddiad ar gynllunio iechyd anifeiliaid. Mae'r Grŵp bellach wedi cytuno arno, a gellir ei ddefnyddio/dosbarthu. Dylem bellach fod yn chwilio am gyfleoedd i symud hyn yn ei flaen drwy Cyswllt Ffermio/Hybu Cig Cymru ac ati.

27. Nododd MJ fod llawer o waith yn cael ei wneud yn y diwydiant er mwyn cefnogi gwaith ar gynllunio iechyd anifeiliaid, megis y Tractor Coch. Fodd bynnag, mae llawer mwy o waith yn cael ei wneud yn y diwydiant llaeth a'r sector dofednod, yn hytrach nag yn y diwydiant cig eidion a chig oen. Nododd, o 1 Ebrill eleni, y bydd rhagor o ofynion yn cael eu cyflwyno er mwyn cymryd rhan drwy gynllun y Tractor Coch, megis yr angen i lunio cynllun iechyd.

28. Roedd MJ yn pryderu o hyd nad oes dull cyfannol o gynllunio iechyd anifeiliaid a bod cyfleoedd i ymdrin â mwy nag un clefyd yn cael eu colli wrth gyflwyno rhaglenni a ariennir yng Nghymru.

29. Nododd JP mai dim ond drwy gyfathrebu â ffermwyr er mwyn deall eu hanghenion y bydd hyn yn effeithiol, ac mai dim ond wedyn y byddwch yn gallu deall yr hyn a fyddai'n eu hysgogi i roi cynllun iechyd anifeiliaid effeithiol ar waith.

30. Mae IL wedi dod ar draws dull gweithredu cadarnhaol, lle mae milfeddygon yn siarad â ffermwyr ac yn cytuno ar gynllun gweithredu sy'n cael ei adolygu yn ystod ymweliadau. Fodd bynnag, mae angen i'r camau gweithredu hynny fod yn realistig i'r ffermwr.

31. Dywedodd CG na all Llywodraeth Cymru arwain y cynllun hwn, a bod cyfrifoldeb ar ffermwyr i fwrw ymlaen â hyn gan ei fod yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

32. Dywedodd JP fod ymgyrch gyfathrebu'n ateb posibl. Holodd CG am y model Segmentu Newid mewn Ymddygiad sydd wedi cael ei lunio, gan ofyn a allai fod yn adnodd effeithiol.

**Cam gweithredu 5>** Pawb, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ystyried argymhellion yr adroddiad a nodi'r ffordd orau o ddosbarthu'r adroddiad a rhannu'r canfyddiadau

**<u>Eitem 6 ar yr Agenda: Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru – Seminar 'Animals, Land and You'</u>**

33. Gwnaeth y Cadeirydd groesawu PC Allen a Rob Taylor o Dîm Troseddau Gwledig Heddlu Gogledd Cymru.

34. Aeth PC Dave Allen drwy'r cyflwyniad, a nododd faint o ddigwyddiadau y mae'r tîm wedi dechrau eu cofnodi yn ddiweddar sy'n ymwneud â phoeni anifeiliaid. Cofnodwyd 435 o ddigwyddiadau yn y gogledd yn unig rhwng 2013 a 2017, a nododd fod y gwir ffigur yn debygol o fod yn llawer uwch, gan nad yw'r math hwn o ddigwyddiad yn cael ei ddwyn i sylw'r heddlu'n aml.

35. Mae 75% o droseddau yn ymwneud â chŵn yn dianc o gartrefi/gerddi nad yw'r perchenogion yn gofalu amdanynt yn ddigonol, ac mae llai o achosion yn ymwneud â pherchenogion yn rhyddhau cŵn o'r tennyn wrth fynd allan am dro.

36. Aeth Rob Taylor drwy'r problemau y mae'r tîm wedi dod ar eu traws mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth, yn ogystal â'r gwaith y mae'n ei wneud er mwyn ceisio newid hyn a sicrhau bod ganddo fwy o bwerau wrth geisio euogfarnu.

37. Gofynnodd PB a allai pwerau'r Ddeddf Lles Anifeiliaid gael eu defnyddio i erlyn perchenogion oherwydd y ffordd y mae'r anifail yn cael ei drin gartref. Dywedodd Rob Taylor fod modd gwneud hynny, ond ei fod yn anodd iawn ei brofi.

38. Mae'r tîm yn ceisio cael systemau adrodd gwell ac annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau. Mae'n defnyddio nifer o ddulliau cyfathrebu, a gellir rhoi'r cyflwyniad i unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes hwn. Awgrymodd IL y gall Cymdeithas Milfeddygon Prydain werthfawrogi hyn.

39. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Tîm Troseddau Gwledig am ddod i'r cyfarfod ac am siarad am bwnc mor bwerus, a gofynnodd iddynt roi gwybod i'r Grŵp Fframwaith am ganlyniad y newid i'r ddeddfwriaeth.

**Cam gweithredu 6>** Anfon llythyr gan y Grŵp Fframwaith at Ysgrifennydd y Cabinet i gefnogi'r gwaith a wneir gan y Tîm Troseddau Gwledig a gofyn a oes ystyriaeth yn cael ei rhoi i newid y gyfraith yng Nghymru er mwyn adlewyrchu'r gwaith hwn

**<u>Eitem 7 ar yr Agenda: Y Clafr</u>**

40. Mae MJ yn pryderu nad yw'r gwaith sy'n cael ei wneud ochr yn ochr ag arian y Cynllun Datblygu Gwledig gyda BVD bellach yn mynd i ddigwydd oherwydd diffyg arian.

41. Dywedodd MJ fod y diwydiant yn teimlo'n rhwystredig ynghylch y ffaith bod papur wedi cael ei lunio a'i fod bellach wedi'i ohirio eto. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid cyflwyno'r papur hwn i Ysgrifennydd y Cabinet er mwyn amlinellu'r angen am arian.

42. Roedd MJ hefyd yn ymwybodol o grŵp yn Aberystwyth sy'n cynnig project gan yr UE i ymdrin â'r clafr yn ei ardal. Dywedodd CG nad oeddem yn ymwybodol o'r prosiect hwn.

43. Nododd CG y bydd angen i ni gadarnhau pa ddeddfwriaeth, mentrau/blaenoriaethau sydd ar lefel y DU, a pha rai sydd ar lefel Cymru'n unig, a chadarnhau'r un peth mewn perthynas ag unrhyw arian.

44. Nododd IL ei fod wedi cael gwybod bod gan rai diadellau fathau o'r gwiddonyn sydd ag ymwrthedd, er iddynt gael eu trin â dau gynnyrch gwahanol i'w chwistrellu. Nid oes unrhyw gynhyrchion trwyddedig eraill i'w chwistrellu. Mae'r adroddiadau cynnar hyn o ymwrthedd yn ddatblygiad sy'n peri pryder gan fod y diwydiant yn dibynnu ar y cynhyrchion hyn i drin y clafr a chlefydau parasitig eraill.

45. Roedd AR yn teimlo bod angen bwrw ymlaen â'r gwaith ar hyn yn gyflym a bod angen gwneud penderfyniadau a chael trafodaethau ar ymylon y grŵp hwn cyn y cyfarfod nesaf.

**Cam gweithredu 7>** Bydd CG yn siarad â PC er mwyn deall y sefyllfa bresennol o ran y gwaith ar y clafr ac arian y Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi adborth cyn gynted â phosibl

**Eitem 8 ar yr Agenda: Y diweddaraf gan y Prif Swyddog Milfeddygol**

46. Nododd CG y risgiau i fod yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd;
    - Ffliw Adar mewn adar gwyllt yng Nghymru. Mae parth atal eisoes ar waith. Cynghorwyd pawb i fod yn wyliadwrus a rhoi mwy o fesurau bioddiogelwch ar waith
    - Clwy'r Moch – dim newid i lefel y risg
    - Nid yw lefel y risg o ran y Tafod Glas wedi newid
    - Clwy Affricanaidd y Moch ar ffin Gwlad Pwyl, ond nid yw'n effeithio arnom yma ar hyn o bryd
    - Feirws Epidemig Dolur Rhydd y Moch yn America, ond nid oes unrhyw achosion ohono yma (ond rydym yn gwneud gwaith monitro)

47. Rhoddodd CG y wybodaeth ddiweddaraf am Ymarfer Blackthorne a fydd yn cael ei gynnal ar 25 a 26 Ebrill. Dywedodd fod croeso i'r Grŵp arsylwi'r ymarfer, ond y dylid cysylltu'n gyntaf er mwyn gwneud trefniadau. Rhoddwyd nodyn i'r Grŵp yn amlinellu'r hyn a fyddai'n digwydd.

48. O ran Brexit, soniodd CG am y gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer y diwrnod cyntaf gyda gweinyddiaethau eraill. Mae'n rhaid i ni ystyried materion megis yr hyn a fydd yn digwydd o ran Banciau Brechlynnau a Labordai Cyfeirio, er enghraifft.

49. Nododd CG na fydd yr un archwiliadau iechyd anifeiliaid nac archwiliadau bwyd ar gael pan fyddwn yn gadael yr UE. Felly, bydd angen i ni ystyried beth fydd yn cymryd lle'r rôl hon a phwy fydd yn dilysu statws iechyd er mwyn i ni allu masnachu.

50. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn mynd i Seland Newydd mewn ychydig o wythnosau. Bydd yn ystyried rhaglen i ddileu TB a'r ffordd y gwnaeth newid o sefyllfa lle nad oedd un cynllun iawndal ar gael.

51. Nododd CG fod TB a diffyg dealltwriaeth ffermwyr ohono yn broblem o hyd. Mae ffocws ar gyfathrebu, ond byddai unrhyw sylwadau sydd gan y Grŵp ar hyn yn cael eu croesawu.

52. Bydd dadl ynghylch anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Mae'n rhaid ystyried hyn yn ofalus. Trafodwyd arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid hefyd, gan fod y problemau sy'n gysylltiedig â'r rhain yn debyg i'r rhai sy'n gysylltiedig â syrcasau. O ran gwahardd, nodwyd nad ydym am fod ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr/yr Alban, gan y gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae syrcasau yn ymweld â Chymru fel yr unig wlad lle gallant arddangos anifeiliaid yn gyfreithlon o hyd. Mae EB yn gweithio gyda'r tîm Lles Anifeiliaid, nid yn unig ar hyn ond ar faterion ehangach a'n safbwynt ar ôl Brexit. Dyddiad i'w gadarnhau

53. Dywedodd CG y bydd Tony Joss, sydd wedi gweithio yn Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ers 17 mlynedd, yn ymddeol ym mis Mai ac y bydd Jason Pollard yn cymryd ei le.

**Cam gweithredu 8>** Y Grŵp Fframwaith i ysgrifennu llythyr at Tony Joss er mwyn dymuno'n dda iddo i'r dyfodol a diolch iddo am ei waith dros y blynyddoedd yn Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ac ym maes clefydau anifeiliaid

**Eitem 9 ar yr Agenda: Wyau Maes**

54. Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon wedi'i chynnwys yn dilyn cais gan Ysgrifennydd y Cabinet am y wybodaeth ddiweddaraf. Cafodd y mater ei drafod gan y Grŵp Fframwaith ym mis Rhagfyr 2016, ond nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi deillio o'r drafodaeth bryd hynny.

55. Nododd CG fod Ysgrifennydd y Cabinet am ystyried gwahardd cewyll wedi'u cyfoethogi yng Nghymru o bosibl. Nodwyd mai dim ond dau gynhyrchydd yng Nghymru sy'n defnyddio'r system hon ar hyn o bryd, ond bod un ohonynt yn gynhyrchydd mawr iawn (mwy na 350,000 o ieir). Un elfen a godwyd gan y Grŵp yw bod yr uned fwy hon yn gymharol newydd, a bod llawer o arian eisoes wedi cael ei fuddsoddi i sicrhau ei bod yn cydymffurfio.

56. Yn ôl AR, mae'n bosibl y bydd y diwydiant yn ystyried peidio â defnyddio wyau sy'n cael eu cynhyrchu drwy'r dull hwn o 2020.

**Cam gweithredu 9>** Y Grŵp i gyflwyno sylwadau i'r Ysgrifenyddiaeth a fydd yn paratoi ymateb i Ysgrifennydd y Cabinet

**Eitem 10 ar yr Agenda: Y diweddaraf am gyfarfod Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru**

57. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i PB.

58. Roedd PB yn bresennol yn ystod cyfarfod diwethaf Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru, lle trafodwyd cod ymarfer llochesau. Mae wedi rhoi adborth i Lywodraeth Cymru a bydd yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf pan fydd ar gael.

59. Awgrymodd PB y gall cyflwyniad ar gofrestr o droseddwyr anifeiliaid fod o ddefnydd i'r Grŵp, a byddai'n fodlon gwahodd Paul Smith o'r RSPCA i'r cyfarfod nesaf.

60. Trafododd PB hefyd y materion sy'n ymwneud ag anifeiliaid anwes pengrwn (yn enwedig cŵn). Nododd fod Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi llunio Bil ar ymdeimlad a lles, ac y gallai'r Bil hwn ddarparu ar gyfer diogelu anifeiliaid heb eu geni (h.y. y rhai sy'n bridio bridiau pengrwn).

61. Nododd PB hefyd y bydd brid pengrwn (ci smwt) yn ymddangos mewn ffilm Disney sy'n cael ei rhyddhau'n ddiweddarach eleni, ac y gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n bridio'r math hwn o gi yn fwriadol.

62. Dywedodd PB fod achos o glwy Alabama wedi cael ei gadarnhau a bod Dogs Trust wrthi'n rhannu gwybodaeth am hyn. Bydd CB yn cadarnhau a oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru.

63. Mae Dogs Trust yn cynnal arolwg mawr o ymddygiad prynwyr. Dywedodd CG y gallem ail-drydar hyn.

**<u>Eitem 11 ar yr Agenda: Cyfathrebu</u>**

64. Cododd CB yr adborth y mae aelodau'r Grŵp wedi'i gael sy'n nodi ffyrdd posibl o newid yr elfen gyfathrebu yn y dyfodol, a gofynnodd am unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill ar hyn ar ôl rhannu drafft o'r Cynllun Cyfathrebu gyda'r Grŵp.

65. Gwnaeth y Grŵp drafod yr opsiynau a chrynhoi ei ddewisiadau o ran cyfathrebu. Roedd y rhain yn cynnwys: newid y dull o rannu gwybodaeth am adolygiadau canol blwyddyn yn allanol; anelu pob blaenoriaeth at ei chynulleidfa drwy flogiau neu gylchlythyrau yn hytrach nag un diweddariad ffurfiol; bod yn fwy gweithgar ar y cyfryngau cymdeithasol (gan ddefnyddio cyfrif y Prif Swyddog Milfeddygol yn hytrach na phroffil Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru); a bod yn bresennol/cymryd rhan mewn mwy o ddigwyddiadau i randdeiliaid (gan gynnwys y Sioe Frenhinol neu ddigwyddiadau tebyg).

**Cam gweithredu 10>** Bydd CB yn dwyn y 10 pwynt bwled o'r cyfarfod ynghyd, yn ogystal â chytuno ar sut i rannu hyn ac â pha gynulleidfa. Bydd hyn yn profi sut mae'r Grŵp Fframwaith yn ymgysylltu'n allanol yn y dyfodol

**<u>Eitem 12 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall</u>**

66. Nododd IL fod Bord Gron Brexit wedi bod yn ystyried yr elfen amaethyddol, a bydd yn rhannu adroddiad y Grŵp Tystiolaeth a Sefyllfaoedd ar hyn gyda'r Grŵp, er gwybodaeth.

**DIWEDD**